# Is-grŵp Rheoli Cyrchfan Conwy

# Cylch Gorchwyl

**Aelodau**

| **Enw'r aelod \| Name of member** | **Enw'r busnes \|Name of business** |
|---|---|
| Nigel Treacy<br>(Cadeirydd Partneriaeth Cyrchfan Conwy) | Canolfan Chwaraeon Eira Llandudno |
| Glenn Evans | Gwesty'r Royal Oak (Betws-y-Coed) |
| Angharad Mair Owen | Parc Gwyliau Tŷ Gwyn |
| Louise Jowett | Beics Betws |
| Clive Wolfendale | Adferiad Recovery |
| Graham Paul Jones | Grŵp Llandrillo Cymru |
| Emiko Corney | Bwthyn Gwyliau Swn-y-Dŵr |
| Chris Owens | Alpine Travel |
| David Thornley | Parciau Hamdden Thornley |
| Bryn Jones | Cwrs Golff y Fedwen Arian |
| Gareth Ffowcs Williams | We Cycle |
| Liam Donnelly | Gwesty Belmont a Gwesty Llandudno Bay |
| Edward Hiller | Mostyn Estates Ltd |
| Tamzyn Lawrence | t-l-c, Betws y Coed |
| Harry Pemberton | Snowdonia Bikes |
| Melanie Lawton | Trafnidiaeth Cymru |
| Tracey Woodbine | Woody's Luxury Glamping |
| John Metcalf | Number 18 Conwy |
| Melissa Esplen-Metcalf | Number 18 Conwy |
| Jules Arrowsmith | Parc Fferm Manorafon a Maes Carafanau a Gwersyll Manorafon |
| Michael Thompson | Can-Y-Bae a Blue Badge Tourist Guide for Wales |
| Tansy Rogerson | Armadillo Events |
| Emma-Jane Sutcliffe | Canolfan Ddringo The Boathouse |
| Brid Adams | Gwesty a Sba y Quay |
| Dylan Wyn Evans | Adventure Parc Snowdonia / Hilton Garden Inn Snowdonia |
| Kimberley Edmunds | The Jester's Tower |
| Caroline Somary | Sweet Snowdonia |
| Sally Paveley | The Motorsport Lounge |

**Swyddogaethau**

Bydd Is-grŵp Rheoli Cyrchfan Conwy yn cyflawni'r swyddogaethau canlynol:

- Asesu sut mae'r Sir yn edrych o ran Glanweithdra, taclusrwydd, arwyddion, toiledau, gwybodaeth i ymwelwyr, isadeiledd - codi materion a phryderon trwy fonitro
- Gwneud awgrymiadau o ran prosiectau isadeiledd twristiaeth gallwn ni eu cyflwyno i Croeso Cymru ar gyfer cyllid y Pethau Pwysig
- Deall disgwyliadau ein hymwelwyr a'r gymuned leol, a oes gennym ddata i wneud penderfyniadau deallus
- Ydi'r Sir mewn sefyllfa dda ar gyfer twristiaeth gynaliadwy, e.e. mannau gwefru cerbydau trydan, ac ati

**Strwythur**

- Bydd y grŵp yn penodi cadeirydd:- mae (Angharad Owen) wedi'i phenodi
- Bydd y Cadeirydd ar Fwrdd Cyrchfan Conwy, a bydd yn sicrhau bod negeseuon yn llifo rhwng grŵp Cynllun Rheoli Cyrchfan Conwy a'r Bwrdd
- Enwebodd aelodau eu hunain ar gyfer y grŵp pan gafodd ailstrwythuro Cyrchfan Conwy ei hysbysebu. Fodd bynnag, gall aelodau newydd ymuno â'r grŵp trwy gytundeb â'r Cadeirydd a rheolwr twristiaeth CBSC
- Mae'r grŵp yn ddigon hyblyg i ganiatáu presenoldeb mewn cyfarfodydd gan bobl nad ydynt yn aelodau, os bernir bod eu cyfraniad neu eu presenoldeb yn ddefnyddiol. Bydd angen cytundeb o flaen llaw gan y Cadeirydd a rheolwr twristiaeth CBSC
- Bydd CBSC yn darparu ysgrifennydd ar gyfer y cyfarfodydd (i ofalu am nodiadau camau allweddol, gwahoddiadau i gyfarfodydd, cyhoeddi nodiadau ar wefan twristiaeth)

**Perthynas â grwpiau eraill**

- Mae'n bwysig bod pum is-grŵp Cyrchfan Conwy yn rhoi gwybod i'w gilydd am y gwaith maen nhw'n ei wneud. Caiff nodiadau pob cyfarfod eu cadw ar wefan dwristiaeth y Sir (porthol busnes)

**Cyllid**

- Os bydd y grŵp am wneud cais am arian grant i gefnogi ei waith, byddai angen i hyn gael ei wneud trwy'r Bwrdd a byddai angen i geisiadau fod dan enw Partneriaeth Cyrchfan Conwy

**Cynnal Busnes**

- Bydd y grŵp yn gweithredu ar sail consensws. Pan fo anghytundeb bydd y Cadeirydd, gan ddefnyddio pob sianel priodol, yn ceisio datrys unrhyw anghytundeb sy'n codi o fewn y grŵp gyda chefnogaeth rheolwr twristiaeth CBSC.

**Cyfarfodydd**

- Fe fydd yr is-grŵp Rheoli Cyrchfan yn penderfynu ar batrwm ei gyfarfodydd, er mwyn sicrhau bod busnes y grŵp yn cael ei drin mewn modd priodol ac amserol. Disgwylir i fodloni’n eang ar y seiliau canlynol. Er hwylustod yr aelodau, bydd y Bartneriaeth yn cytuno ar raglen gwaith i’r dyfodol sy’n cynnwys dyddiad, amser a lleoliad cyfarfodydd (neu ddolenni gwe), fel rheol chwe mis ymlaen llaw.
- Bydd y cyfarfodydd fel rheol yn cael eu cynnull gan y Cadeirydd, mewn cysylltiad â’r Ysgrifennydd.
- Bydd y Cadeirydd a’r Ysgrifennydd yn llunio rhaglen, a fydd yn cael ei dosbarthu cyn y cyfarfod. Bydd cofnodion y cyfarfod blaenorol hefyd ynghlwm wrth y rhaglen.
- Bydd papurau ychwanegol yn cael eu hanfon gyda’r rhaglen a’r cofnodion.
- Gofynnir bod pob trafodaeth yn y cyfarfodydd yn cael eu trin yn gyfrinachol, gan greu amgylchedd agored i deimlo’n hyderus i siarad yn agored.
- Bydd pob gweithgaredd yn cael ei gynnal mewn modd agored a thryloyw, drwy gyfathrebu ac ymgynghori, gan gynnwys cyhoeddi gwaith y bartneriaeth a dosbarthu gwybodaeth i’r gymuned ehangach.
- Os bydd unrhyw aelod o'r is-grŵp yn dymuno ymddiswyddo o'r Grŵp Sgiliau, yna bydd yn rhaid iddo gyflwyno ei ymddiswyddiad yn ysgrifenedig i Gadeirydd yr is-grŵp, os mai Cadeirydd yr is-grŵp sydd yn ymddiswyddo yna mae’n rhaid iddynt gyflwyno eu llythyr ymddiswyddo i Gadeirydd Cyrchfan Conwy. Er y gall yr aelod sy’n ymddiswyddo argymell rhywun yn ei le, mae’n rhaid cael cymeradwyaeth ymlaen llaw gan y Grŵp cyn y gellir caniatáu i’r person hwnnw fynychu cyfarfodydd yn y dyfodol.

.